

## **Bwletin Awdurdod S4C - Rhagfyr 1999**

Fe gynhaliodd yr Awdurdod gyfarfodydd yng Ngwesty'r Porth, Llandysul ar Dachwedd 25 a 26.

### **Y CYFARFOD CYHOEDDUS**

Ar nos Iau, Tachwedd 25, fe gynhaliodd yr Awdurdod ei gyfarfod cyhoeddus agored mwyaf diweddar. Roedd nifer dda yn bresennol, gyda 40 o'r cyhoedd yn mynd i'r drafferth o fynychu a lleisio'u barn ar noson wlyb a gwyntog.

Yn ogystal â Chadeirydd yr Awdurdod, Elan Closs Stephens, bu'r Prif Weithredwr, Huw Jones, a'r Cyfarwyddwr Rhaglenni, Huw Eirug, yn cymryd rhan yn y drafodaeth hefyd. Roedd aelodau eraill yr Awdurdod yn bresennol i wrando ar y drafodaeth ac i gael sgwrs anffurfiol â'r cyhoedd cyn ac ar ôl y cyfarfod.

Roedd y drafodaeth, a aeth ymlaen am ddwy awr a mwy, yn un eang a threiddgar. Ymysg y materion a drafodwyd oedd:

### **Yr Heriau sy'n Wynebu S4C**

Eglurodd Huw Jones rhai o'r heriau pwysicaf sy'n wynebu S4C wrth iddi geisio parhau i fod yn berthnasol a llwyddiannus i wylwyr yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pa wasanaethau i'w darparu yn yr oes ddigidol, gan fod mwy a mwy o bobl o fewn cyrraedd llawer iawn mwy o sianelau nag o'r blaen; ac, mewn cartrefi â gwasanaeth digidol, pobl ifanc yn treulio llawer o'u hamser gwyllo yn edrych ar sianelau newydd.
- Sut i adlewyrchu a chwarae rhan mewn Cymru a byd tu allan sy'n prysur newid, a diwallu anghenion y gwylwyr hŷn a phresennol yn ogystal â mynych wahanol anghenion a dyheadau y bobl ifancach.
- Sut i ddefnyddio'n llwyddiannus y rhyddid sydd gan S4C i gymryd rhan mewn mentrau darlledu masnachol er mwyn ychwanegu at yr arian wedi'i gapio gan y Llywodraeth, a sicrhau lefel fuddsoddi a fydd yn sicrhau y gall S4C ddarparu gwasanaethau iaith Gymraeg a gwasanaeth eraill i'r cyhoedd yn y dyfodol, sy'n gallu cystadlu yn yr oes ddigidol.
- Sut i sicrhau bod llif pendant o dalent newydd ar gael, sy'n gallu ysgrifennu, cynhyrchu, perfformio a darlledu'r rhaglenni a fydd yn parhau i wneud teledu yn yr iaith Gymraeg yn atyniadol i gynulleidfaoedd yn y dyfodol. Mae S4C eisoes yn cynnig nifer o ysgoloriaethau ac yn noddi ystod o gynlluniau eraill er mwyn hybu talent. Fe eglurodd Huw Jones bod S4C yn adolygu'r rhaglen hon, gyda phartneriaid yn y diwydiant, er mwyn gweld beth sydd angen ei wneud yn y dyfodol.

Roedd aelodau'r cyhoedd yn mynegi pryder ynglŷn â dylanwad llif cynyddol y rhaglenni, mawr eu cost a chaboledig, Eingl-Americanaidd, ar gymunedau Gymraeg eu hiaith. Roeddent am weld rhagor a gwell rhaglenni iaith Gymraeg i blant a phobl ifanc.

Eglurodd Huw Eirug y byddai'r amserlen rhaglenni newydd, sydd i'w lansio yn y Flwyddyn Newydd, yn ymateb i'r angen hwn. Dywedodd Huw Jones nad oedd yr arian gan S4C i geisio cystadlu â phopeth a wnaethpwyd yn Saesneg; ond yr hyn y byddai yn gallu'i wneud, ac y byddai'n rhaid iddi wneud, oedd cynnig gwasanaethau a oedd yn drawiadol a pherthnasol i fywydau pobl ifanc yng Nghymru. Tynnodd sylw at waith eisoes yn mynd rhagddo yn S4C i ddatblygu ei safwe a gwasanaethau rhyngweithiol eraill. Byddai'r rhain yn cael eu llunio i fod o fewn cyrraedd a deniadol i bawb, ond y byddent yn cynnwys nodweddion arbennig wedi'u hanelu at anghenion a diddordebau y gwylwyr ifancach. Ychwanegodd, fodd bynnag, y dengys ymchwil cynulleidfa fod operâu sebon o leiaf cyn bwysiced ym mywydau gwyllo teledu y bobl ifancach â'r rhaglenni hynny a luniwyd yn arbennig ar eu cyfer.

## **Derbyn gwasanaethau digidol**

Roedd aelodau'r cyhoedd yn canmol penderfyniad S4C i arwain y ffordd o ran darlledu digidol ac i ymestyn ei gwasanaethau iaith Gymraeg i ddeuddeng awr y dydd ar S4C Digidol. Dywedodd un person bod y datblygiadau hyn cyn bwysiced i'r iaith Gymraeg a'r bywyd Cymreig â'r penderfyniad a wnaethpwyd i sefydlu S4C. Fodd bynnag, roedd y gost bresennol o gael mynediad i deledu digidol wedi'u gwneud yn fwy pryderus a rhwystredig. Yn eu barn hwy, roedd y gost y tu hwnt i fodd llawer o bobl, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig fel Ceredigion. Roeddent yn hynod o bryderus y byddai'n rhaid iddynt danysgrifio i deledu Sky er mwyn derbyn gwasanaethau gyda lloeren, gan nad oedd modd eu derbyn yn eu hardal hwy ar deledu daearol digidol (DTT).

Cydymdeimlai Elan Closs Stephens. Er, yn ôl ffigurau Llywodraeth y DU, roedd dros 90% o boblogaeth Cymru eisoes o fewn cyrraedd signalau digidol ar naill ai lloeren neu DTT, a gyda dyfodiad teledu cebl digidol i ardaloedd mwy trefol cyn bo hir, roedd S4C yn pwyso ar y Llywodraeth er mwyn iddi fodloni'i hamcan, sef y dylai teledu digidol fod ar gael i'r boblogaeth gyfan, ni waeth be fo cyfoeth a ble bydd pobl yn byw. Efallai yr hoffai gwylwyr ystyried lobio'r Llywodraeth yn uniongyrchol, neu drwy eu haelodau Cynulliad ac AS, er mwyn mynegi eu pryderon.

Dywedodd Huw Jones fod S4C wedi penderfynu mynd ar loeren ddigidol er mwyn darparu gwasanaethau ar unwaith i gyn gymaint o bobl â bo modd. Ni allai fforddio buddsoddi rhagor mewn cyfleusterau darlledu DTT - a oedd yn ddrud i'w darparu yng Nghymru oherwydd y dirwedd - heb wneud cwtogiadau hollol annerbyniol ar gyllidebau ar gyfer rhaglenni. Pwysleisiodd bod teledu Sky yn cynnig blwch a dysgl lloeren am ddim ar hyn o bryd, a chodi £100 yn unig am ei gosod, ac ni fydd angen i bobl danysgrifio i'w sianelau. Byddai hyn yn galluogi gwylwyr i dderbyn S4C Digidol, S4C2 a gwasanaethau rhydd i'r awyr eraill fel y BBC a'r ITV. Nid oedd modd, fodd bynnag, dweud a fyddai'r cynnig hwn yn parhau'n ddiderfyn.

## **Rhaglenni Penodol**

Bu aelodau'r cyhoedd yn cynnig ystod eang o sylwadau barn ac awgrymiadau ar raglenni penodol:

- Rhoddwyd ymateb brwd i *Gŵr y Gwyrthiau/The Miracle Maker*, rhaglen am fywyd Crist. Mae'r fersiwn Cymraeg bellach yn mynd o amgylch sinemâu ledled Cymru ac roedd pentref Llandysul wedi trefnu bws er mwyn mynd i'r sinema yn Aberteifi. Bydd y ffilm yn cael ei dangos ym mhobman yn Saesneg ledled y DU yn ystod Pasg 2000. Ar ben hynny fe'i gwerthwyd yn rhyngwladol a byddai'n cael ei dangos ar deledu rhwydwaith gan Gwmni ABC yn yr UDA yn ystod Pasg 2000 a 2001.

Rhodddwyd canmoliaeth yr un mor frwd i *Y Graith* ac addasiadau eraill o glasuron llenyddol yr iaith Gymraeg. Crybwyllodd Efan Closs Stephens bod disgyblion Chweched Dosbarth Ysgol Dyffryn Teifi hwythau wedi rhoi canmoliaeth fawr, pan fu hi yno yn rhoi sgwrs iddynt y bore hwnnw.

- Mynegwyd pryder ynglŷn â diffyg hiwmor a bywiogrwydd canfyddedig yn *Pobol y Cwm*. Roedd rhai wedi digio'n enbyd wrth rediad stori oedd â nodweddion tebyg i lofruddiaeth teulu a ddigwyddodd yn ddiweddar yng Nghlydach. Dywedodd Huw Eirug y byddai gwylwyr yn gweld llawer mwy o hanesion o ddiddordeb dynol, ac agosatrwydd a hiwmor yn *Pobol y Cwm* yn y misoedd i ddod. Roedd gwersi wedi'u dysgu a byddai sylw arbennig yn cael ei roi i osgoi lliithriadau enbyd o ran chwaeth, yn enwedig mewn perthynas â digwyddiadau cyfoes real.
- Gofynnwyd yn daer am ragor o ddarllediadau iaith Gymraeg ar gyfer ysgolion gan gynnwys, o bosibl, darllediadau yn oriau mân y bore, y gellid eu recordio ar fideo. Eglurodd Huw Jones mai'r BBC oedd yn darparu rhaglenni ysgolion S4C. Er mwyn ehangu darpariaeth ysgolion gyda'i chomisiynau ei hun, byddai'n rhaid cyfeirio adnoddau S4C o feysydd rhaglenni eraill. Ar hyn o bryd, roedd S4C o'r farn bod y cydbwysedd addas wedi'i sefydlu.
- Mynegwyd pryder dybryd ynglŷn â'r hyn, a oedd ym marn rai, yn ddirywiad yn ansawdd y darlledu a gafwyd o'r Eisteddfod Genedlaethol a sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. Yn eu barn hwy, roedd gormod o sgwrsio a sylwadau anffurfiol a ddim digon o'r cystadlaethau eu hunain, y bu pobl ledled Cymru yn paratoi amdanynt am fisoedd lawer. Dywedodd Huw Jones y byddai hyn yn cael ei adolygu'n ofalus a'i gymryd i ystyriaeth mewn penderfyniadau ynglŷn â natur rhaglenni yn y dyfodol.
- Ymysg y sylwadau eraill ar raglenni iaith Gymraeg oedd:
  - Y ddadl dros gael rhaglen am gyllid personol, a fyddai efallai'n derbyn nawdd gan un neu ragor o sefydliadau ariannol
  - Yr angen am well rhaglenni comedi
  - Amheuan ynglŷn â natur ac ansawdd rhywfaint o'r sylwebaeth ar gemâu rygbi.
  - Yr angen, pan ddarlledir corau, i ddangos yr holl gôr yn hytrach na chanolbwyntio ar rai unigolion
  - Cais am ragor o raglenni hanes a chrefydd, ac yn amlach. Roedd y rhai a ddangoswyd, yn cynnwys y gyfres ddiweddar 'Cymru 2000', yn cael eu gwerthfawrogi a'u canmol oherwydd yr ansawdd uchel oedd yn perthyn iddynt. Anogwyd S4C i wneud rhagor yn yr un cywair.

Dyweddodd Huw Jones y byddai'r holl bwyntiau hyn yn cael eu hystyried yn ofalus. Teimlai Huw Eirug yn obeithiol y byddai amserlenni rhaglenni'r Flwyddyn Newydd yn dangos bod S4C wedi derbyn ac ystyried o leiaf rhai o'r materion hyn eisoes, ac yn ymateb iddynt.

### **Defnyddio Saesneg mewn Rhaglenni Iaith Gymraeg**

Roedd un aelod o'r cyhoedd yn dweud ei fod yn siomedig ynglŷn â'r hyn, a oedd yn ei eiriau ef, yn ddiffyg gweledigaeth, dyfeisgarwch ac arbrofi ar ran S4C, wrth ymdrin â'r modd y defnyddir Saesneg mewn rhaglenni Cymraeg. Credai ef fod hyn yn golygu y clywid Saesneg yn amlach mewn rhaglenni nag oedd angen. Cyn sefydlu S4C meddai, roedd gan HTV bolisi bob amser o ddefnyddio troslais yn y Gymraeg ar gyfer cyfraniadau a wnaed yn Saesneg.

Dyweddodd aelod arall o'r cyhoedd mai pwysig oedd peidio â barnu yn rhy buryddol. Credai ef na fyddai gair neu ddau neu frawddeg yn Saesneg (neu wedi'u bathu o'r Saesneg) yn gwneud fawr o wahaniaeth, er iddo bryderu, mewn rhai rhaglenni, bod Saesneg yn cael ei defnyddio'n ormodol mewn rhannau nodwedd hir. Iddo ef, y gair allweddol oedd "cydbwysedd".

Dyweddod Elan Closs Stephens bod Awdurdod S4C yn cymryd swyddogaeth S4C mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn hynod o ddifrif. Dyna pam ei fod wedi ystyried y mater hwn yn hir a manwl, wrth baratoi canllawiau ei raglenni, gan gynnwys comisiynu ymchwil cynulleidfau. Roedd hyn wedi profi, ar gyfer mwyafrif mawr y gwylwyr sy'n siarad Cymraeg heddiw, y byddai defnyddio trosleisiau am gyfraniadau yn Saesneg, gan, er enghraifft, y Prif Weinidog, Canghellor y Trysorlys neu hyfforddwr rygbi Cymru, i'w weld yn annaturiol a diangen. Ar y llaw arall, roedd y canllawiau hefyd yn adlewyrchu pryder gwylwyr y dylid cyfyngu ar y defnydd a wnaed o'r Saesneg yn unig ar gyfer yr hyn oedd yn hollol angenrheidiol ac y gellid ei gyfiawnhau yng nghyd-destun y rhaglen benodol. Tynnodd sylw at y rheolau hynod gaeth a olygai y gellid defnyddio Saesneg yn unig mewn amgylchiadau hollol eithriadol mewn rhaglenni plant. Roedd y canllawiau hefyd yn ceisio gadael i raglenni adlewyrchu gwahanol batrymau ieithyddol a hoffterau pobl mewn gwahanol rannau o Gymru. Roedd *Heno*, er enghraifft, â chennad arbennig i ddenu gwylwyr yn ardaloedd diwydiannol De Orllewin Cymru ac roedd y rhaglen yn defnyddio rhagor o Saesneg na'r mwyafrif o raglenni, oherwydd nid oes trosglwyddo iaith ar lefel uchel rhwng y cenedlaethau yn digwydd yn y rhanbarth hwn.

Ychwanegodd Huw Jones y credai ef fod S4C eisoes wedi dangos cryn ddyfeisgarwch a dychymyg wrth ymdrin â'r mater hwn. Bu'n sôn am lwyddiant a phoblogrwydd *Pam Fi Duw*, a oedd yn adlewyrchu gwir natur bywydau llawer o bobl yng nghymoedd diwydiannol De Cymru. Mewn cyferbyniad, bu'n sôn am y gyfres ddogfen *Ysbyty Glan Clwyd*. Er mwyn adlewyrchu gwir natur bywyd yr ysbyty roedd angen cynnwys cryn dipyn o ffilm y rhaglen yn ymwneud â phobl yn siarad Saesneg. Er mwyn sicrhau nad yw'r nodwedd hon yn goruchafu mewn rhaglen Gymraeg, defnyddiwyd trosleisio a darnau eglurhaol yn helaeth yn Gymraeg. Dywedodd y byddai S4C a'i chyflenwyr yn dal ati i arbrofi o fewn y canllawiau er mwyn creu ystod cryf a deniadol o raglenni iaith Gymraeg.

Ychwanegodd Elan Closs Stephens ei bod yn ddyletswydd ar bob darlledydd, nid S4C yn unig, i adeiladu pontydd rhwng siaradwyr a chymunedau Cymraeg a Saesneg.

## **Comisiynu Rhaglenni**

Gofynnwyd y cwestiwn a oedd penderfyniad S4C i gomisiynu rhaglenni gan nifer llai o gynhyrchwyr yn arwain at golli swyddi yn y diwydiant a lleihau creadigedd.

Dyweddod Huw Jones y bu'n rhaid i S4C leihau'r gost o ddarparu rhaglenni i ryw raddau er mwyn bodloni'r cyfle a her a gynigir gan oriau estynedig i'r Gymraeg ar S4C Digidol. Roedd y sianel wedi ceisio gwneud hyn mewn modd a fyddai'n cryfhau yn hytrach na gwanhau'r diwydiant ac a oedd yn diogelu ansawdd rhaglenni. Gweithredwyd fel hyn; gwahoddwyd cwmnïau i gynnig tendr am becyn o raglenni dros gyfnod o ddwy flynedd y tro, a thrwy hynny hybu arferion gwaith effeithlon. Roedd S4C yn dal i gomisiynu rhaglenni ar sail y gwerth cyflawn a geid am yr arian, a rhoi'r prif bwyslais ar ansawdd. Nid oedd S4C yn gwahardd cwmnïau bach rhag cyflwyno tendrau a bu nifer ohonynt yn llwyddiannus. Mewn achosion eraill, bu pobl mewn cwmnïau llai yn gweithio gyda'i gilydd neu'n ymuno â chwmnïau eraill i ennill comisiynau. Er bod nifer llai o gwmnïau bellach wedi'u comisiynu i wneud rhaglenni ar gyfer S4C, ac o ran y diwydiant darlledu, nid oedd y niferoedd yn fawr. Ni fu creadigedd yn edwino chwaith; i'r gwrthwyneb, bu rhagor o groesffrwythloni syniadau o fewn cwmnïau mwy; ac roedd y cwmnïau mwy mewn lle gwell i ddarparu cyfleoedd da i hyfforddi a datblygu ar gyfer eu staff a hybu'r genhedlaeth nesaf o bobl y byddai'r diwydiant yn gofyn amdanynt.

## **Penodi Aelodau Awdurdod S4C**

Pan ofynnwyd iddi sut y penodir Cadeirydd ac Aelodau S4C, esboniodd Elan Closs Stephens bod hyn yn dilyn hysbyseb agored gyhoeddus, y gallai pawb ymateb iddi a chael ei ystyried ar gyfer bod yn aelod. Wedi hynny cynhelid cyfweiliad cystadleuol, lle byddai'n rhaid i ymgeiswyr rannu eu gweledigaeth a'r hyn oedd ganddynt i'w gynnig. Bernid hwy yn ôl llinyn mesur y disgrifiad swydd a gyhoeddwyd. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon fyddai'n gwneud y penderfyniadau terfynol, hynny hyd yma yn dilyn ymgynghori ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac yn y dyfodol yn dilyn ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Dywedodd ei bod yn parchu gwerth y broses hon, a olygai i'w thyb hi mai pobl ymroddedig a galluog yn unig a fyddai'n ymgymryd â'r swyddogaeth bwysig hon ar ran gwylwyr, y cyhoedd a thalwyr trethi.

## **CYFARFOD BUSNES YR AWDURDOD**

Yng nghyfarfod busnes yr Awdurdod y diwrnod canlynol y testun o dan sylw oedd:

### **Darllediadau Pleidiau Gwleidyddol**

Yr haf diwethaf, roedd yr Awdurdod wedi awdurdodi ymgynghoriad gyda'r prif bleidiau gwleidyddol ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer darllediadau pleidiau gwleidyddol yn y dyfodol. Yr hyn yr oedd y bwriadau yn ei adlewyrchu yn arbennig oedd ymchwil a oedd wedi dangos ei bod yn llawer gwell gan wylwyr ar y cyfan bod darllediadau o'r fath yn gysylltiedig â digwyddiadau pwysig yn y calendr gwleidyddol.

Yn gyffredinol, roedd y pleidiau wedi croesawu'r bwriadau ond roeddent wedi pwyso am gynnig darllediadau ychwanegol yng Nghymru i adlewyrchu gwir sefyllfa'r cyfansoddiad newydd, sef bod rhai grymoedd bellach wedi eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru tra bod eraill yn dal gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Rhoddodd yr Awdurdod gymeradwyaeth i fwriadau adolygedig a oedd yn cydnabod grym y dadleuon hyn. Roedd hefyd wedi ailgadarnhau mai slotiau iaith Gymraeg yn unig a fyddai'n cael eu cynnig yn ystod yr oriau brig iaith Gymraeg ar S4C, tra byddai slotiau iaith Saesneg yn cael eu cynnig yn y bloc rhaglennu iaith Saesneg ar y gwasanaeth analog rhwng 17.55 ac 18.00.

### **Adolygiad o Gyllidebau ym 1999 a 2000**

Cytunodd yr Awdurdod y gellid defnyddio cyfran o'r arbedion o gyllidebau 1999 yn 2000 er mwyn gwella safwe S4C yn sylweddol, dechrau datblygu gwasanaethau rhyngweithiol digidol a lansio gwasanaethau testun digidol cyntaf S4C. Bydd y rhain wedi eu cynllunio i fod yn hygyrch a deniadol i bob defnyddiwr, yn cynnig rhagor o wybodaeth drwyadl am raglenni a chymeriadau S4C ac ymestyn a dwysau'r berthynas y gall gwylwyr ei chael gyda S4C. Cyhoeddir manylion y gwasanaethau newydd pan fyddant ar gael yn ystod y misoedd sydd i ddod.

## **Aelodaeth Bwrdd S4C Masnachol**

Mae S4C Masnachol yn is-gwmni y mae S4C yn berchen llwyr arno, y defnyddir ei elw i gynnal a gwella gwasanaethau cyhoeddus S4C a buddsoddi a sicrhau incwm i'r un diben mewn blynyddoedd sydd i ddod. Cytunodd yr Awdurdod mai doeth fyddai penodi i'r bwrdd gyfarwyddwr anweithredol gyda phrofiad o ddarlledu a masnach. Mae'r penodiad ei hun yn fater i'w benderfynu gan S4C Masnachol.

## **Dydd Cofio'r Lloggaberth**

Croesawodd yr Awdurdod fwriad Llywodraeth y DU i sefydlu, o 2001 ymlaen, dydd cofio blynyddol i goffau'r Lloggaberth Iddewig. Y bwriad oedd i hyn goffau pob hil-laddiad. Cynhelir y dydd ar Ionawr 27ain, sef pen-blwydd rhyddhau gwersyll-garchar Auschwitz. Cytunodd yr Awdurdod byddai'n cefnogi'r bwriad ac mae'n edrych ymlaen i weld S4C yn cyfrannu i'r coffau yn ei rhaglennu ar y pryd.

## **Nawdd**

Bu S4C yn noddwr sylfaenydd y Gwobrau Animeiddio Prydeinig ym 1988 er mwyn rhoi llwyfan gyhoeddus i ddathlu a rhoi cydnabyddiaeth gyhoeddus i lwyddiannau mewn animeiddio. Maent bellach wedi ymsefydlu'n gadarn ac yn denu nawdd gan nifer o gwmnïau. Cytunodd yr Awdurdod y dylai S4C roi nawdd o £5,000 yn 2000.

## **Llongyfarchiadau**

Pleser o'r radd flaenaf i'r Awdurdod oedd medru llongyfarch:

- Geraint Stanley Jones ar ei benodi yn Gadeirydd Sgrîn
- Menna Richards ar ei phenodi yn ddarpar Reolwraig BBC Cymru
- Rhys Evans a Glyn Roberts o S4C ar ennill Aur ac Arian am eu rhaglenni rhagflas yn y Gwobrau Promax ar gyfer holl wledydd Prydain
- Pawb a fu'n ymwneud â *Thecwyn y Tractor*, a enillodd Wobr BAFTA Prydain yn yr adran Rhaglen Orau i Blant Cyn-Ysgol

## **Er Cof**

Gyda thristwch, nododd yr Awdurdod farwolaeth ddiweddar Harriet Lewis, a wnaeth gyfraniad bythgofiadwy ac o serchog goffadwriaeth i lwyddiant darlledu yn yr iaith Gymraeg ac i S4C gyda'i phortread o Magi Post yn *Pobol y Cwm* am flynyddoedd lawer.

## **Materion Eraill**

Derbyniodd yr Awdurdod gyflwyniadau ar:

- Datblygiad gwasanaethau rhyngweithiol S4C
- Cynlluniau ar gyfer animeiddio yn y dyfodol, yn cynnwys rhagor o gyd-gynyrchiadau uchelgeisiol
- Gwaith Adran Ymchwil S4C sy'n rhoi sylw arbennig i batrymau gwyllo ac anghenion a dymuniadau gwylwyr

Derbyniodd hefyd adroddiadau arferol ar:

- Cydymffurfio â chodau rhaglenni
- Cwynion gwylwyr am raglenni unigol
- Cyllidebau S4C.

## **Cyfarfodydd yn y Dyfodol**

Bydd yr Awdurdod yn cynnal ei gyfarfodydd busnes arferol yng Nghaerdydd ym misoedd Rhagfyr ac Ionawr. Cynhelir ei gyfarfod cyhoeddus nesaf yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug am 7.00 p.m. ar 24 Chwefror 2000. Bydd yn cynnal ei gyfarfod busnes misol yno drannoeth.

\*\*\*\*\*